

Teitl y Swydd: Datblygwr Meddalwedd Graddedig

Uned/Ysgol: Gwasanaethau Gwybodaeth a'r Llyfrgell

Gradd: 4A/B

HERA: ISD52

Prif bwrpas y rôl

Rydym yn chwilio am Ddatblygwr Meddalwedd Graddedig i ymuno â'n tîm datblygu i barhau i wella'r gwasanaethau a ddarparwn i'n staff a'n myfyrwyr.

O dan arweiniad staff uwch, bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am ddatblygu prosiectau system gymwysiadau a datblygu systemau presennol o gasglu cwrpas a gofynion cychwynnol, dylunio a phensaernïaeth atebion hyd at weithredu a derbyniad gan randdeiliaid.

Yn benodol, darparu cefnogaeth o ansawdd uchel, broffesiynol ac ymatebol ar gyfer systemau gwybodaeth mewnol, ffynhonnell agored a phrynu'r brifysgol.

Cyfrifoldebau a chyfraniadau allweddol

- Yn unol â safonau datblygu Met Caerdydd, gweithredu cymwysiadau o ddadansoddi a datblygu systemau hyd at hyfforddiant a dogfennaeth.
- Ymgymryd â chefnogaeth desg gymorth ar gyfer cymwysiadau a gefnogir i ddatrys unrhyw ymholiadau a phroblemau, a chysylltu â chyflenwyr meddalwedd a defnyddwyr ynghylch eu hymholiadau systemau o ddydd i ddydd.
- Ymgymryd â sefydlu, addasu, defnyddio a chynnal a chadw cymwysiadau mewnol, a brynwyd i mewn a chod agored.
- Cyfrannu at greu cynlluniau profi a chynnal profion swyddogaethol a rhyngwyneb defnyddiwr/integreiddio ar gyfer systemau cymwysiadau.
- Yn unol â safonau datblygu Met Caerdydd, sicrhau bod cymwysiadau wedi'u hintegreiddio.
- Sicrhau bod diogelwch a rheolaeth mynediad effeithiol wedi'u hymgorffori ym mhob rhaglen i fodloni gofynion busnes ac i ddarparu gwasanaeth cadarn a diogel i staff a myfyrwyr.
- Cyfrannu at asesu dadansoddiad effaith ar draws y system i sicrhau nad yw uwchraddio a gwelliannau meddalwedd newydd yn effeithio'n andwyol ar systemau gwybodaeth eraill.

- Cynorthwyo gyda gwerthuso datblygiadau systemau cymwysiadau newydd fel rhan o werthuso atebion systemau busnes. Cynnal asesiadau o gostau, manteision a risg atebion posibl.
- Cadw llygad ar dechnolegau datblygu perthnasol, gan fynd ag unrhyw syniadau posibl ymlaen gyda'r tîm.
- Mynychu fforymau defnyddwyr systemau corfforaethol, seminarau, cynadleddau, gweithdai a hyfforddiant datblygu staff i ddysgu a chaffael sgiliau newydd. Bydd hyn yn golygu aros dros nos a gall bara am sawl diwrnod.

Manyleb person

Cymwysterau hanfodol / Aelodaethau proffesiynol

- Gradd neu HND neu gymhwyster cyfatebol.

Profiad, gwybodaeth a sgiliau hanfodol

1. Gallu amlwg i ddatblygu gan ddefnyddio iaith raglennu fodern sy'n seiliedig ar y we.
2. Gwybodaeth ymarferol am dechnegau rhaglennu diogel, yn gyffredinol ac ar gyfer yr ieithoedd rhaglennu a fabwysiadwyd.
3. Y gallu i ddylunio atebion technegol.
4. Y gallu i reoli data gan ddefnyddio SQL.
5. Y gallu i ddatblygu gan ddefnyddio CSS a HTML.
6. Sgiliau rhyngpersonol a chyfathrebu effeithiol.
7. Y gallu i weithio'n hyblyg fel aelod o dîm.
8. Disgwylir i chi fod wedi ymgymryd â nifer o brosiectau datblygu o ansawdd uchel er nad o reidwydd mewn amgylchedd masnachol.
9. Parodrwydd a gallu i ddysgu sgiliau newydd i fodloni gofynion busnes newydd, amrywiol a newidiol.
10. Parodrwydd a gallu i ymgymryd â datblygiad a hyfforddiant mewnol/allanol pellach yn ôl yr angen.

Dymunol

1. Gwybodaeth dda am ddatblygu cymwysiadau meddalwedd gan ddefnyddio MS SQL a Microsoft.NET Framework/Core (ASP.NET, C#.NET a Restful API).
2. Y gallu i ddylunio a gweinyddu cronfeydd data o fewn system rheoli cronfeydd data perthynol, gan ddefnyddio offer rheoli cronfeydd data.
3. Profiad o ddatblygu mewn amgylchedd masnachol.

Gofynion sgiliau Cymraeg

Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n myfyrwyr a'n staff ac mae'n rhan allweddol o'n darpariaeth a'n gwasanaethau. Ar gyfer pob swydd ym Met Caerdydd, mae hyfedredd yn y Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y lefelau drwy edrych ar ein llyfryn: [Lefelau sgiliau Cymraeg](#). Os yw sgil wedi'i rhestru fel un hanfodol yn y tabl isod, gwnewch yn siŵr eich bod yn dangos hyn yn eich ffurflen gais ar-lein.

Lefel iaith a disgrifiwr cyffredinol	Gwrando	Darllen	Siarad	Ysgrifennu
A1 – Dechreuwr Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion bob dydd cyfarwydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg.	Dymunol / Hanfodol	Dymunol/ Hanfodol	Dymunol/ Hanfodol	Dymunol / Hanfodol
A2 - Defnyddiwr sylfaenol Yn gallu delio â gwybodaeth syml, uniongyrchol a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol.				
B1 - Defnyddiwr canolradd Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn y Gymraeg am bethau sy'n gyfarwydd a/neu'n gysylltiedig â gwaith.				
B2 - Defnyddiwr canolradd uwch Gallaf fynegi fy hun yn y Gymraeg ar amrywiaeth o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs gyda siaradwr brodorol.				
C1 - Defnyddiwr rhugl Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg.				
C2 - Prif ddefnyddiwr Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn y Gymraeg.				



Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Nid oes angen gwiriad DBS ar gyfer y swydd hon.

Gwybodaeth ategol

Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig ac efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd a'r manyleb person hwn fod yn gynhwysfawr.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos ei fod yn cydymffurfio â'n Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisiau a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd.